Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Holiadur cyn-arolygiad – Gwasanaethau Ieuenctid: Partner

Fel asiantaeth bartner/aelod o staff asiantaeth bartner y darparwr gwaith ieuenctid hwn, rhowch wybod i ni am eich profiad o gydweithredu â nhw, boed yn ffurfiol neu yn anffurfiol. Darllenwch bob datganiad gan ystyried eich profiadau eich hun a thiciwch y blwch sy'n cyfateb orau i'ch barn. I rai cwestiynau, cewch gyfle i esbonio pam y dewisoch chi'r ateb hwnnw, os hoffech wneud hynny.

Mae eich barn yn bwysig i ni. Byddwn yn defnyddio'ch atebion i'n helpu i ddeall eich barn chi am weithio gyda'r darparwr gwaith ieuenctid hwn. Gallem ddefnyddio eich atebion chi ac atebion pobl eraill i'n helpu i ddeall beth yw barn partneriaid darparwyr gwaith ieuenctid tebyg am waith ieuenctid ar draws Cymru.

Mae'r arolwg yn ddienw. Mae eich ymatebion yn gyfrinachol ac nid ydym yn gofyn am eich enw.

Bydd arolygwyr Estyn:

- yn darllen eich atebion
- byth yn datgelu eich atebion unigol i unrhyw un y tu allan i Estyn. Yr unig amser pan y gallem ni rannu gwybodaeth gyda phobl eraill yw os oes gennym ni bryderon am ddiogelwch pobl ifanc.

Bydd eich atebion yn cael eu storio'n ddiogel yn ein cronfeydd data yn unol â'n polisi ar gadw data.

I gael gwybodaeth am sut rydym ni'n trin eich gwybodaeth bersonol, cyfeiriwch at ein hysbysiad preifatrwydd: Datganiad preifatrwydd | Estyn (llyw.cymru)

1. Mae fy sefydliad yn gweithio gyda/yn cysylltu â'r darparwr...

- [ ] Trwy drefniant ffurfiol
- [ ] Yn anffurfiol ond yn rheolaidd
- [ ] Ambell waith
- [ ] Prin byth
- [ ] Byth
- [ ] Ddim yn gwybod

2. Mae gweithio gyda'r darparwr wedi helpu fy sefydliad

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

3. Rwy'n credu bod pobl ifanc sy'n ymgysylltu â'r darparwr yn ddiogel

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

4. Rwy'n credu bod ymarferwyr gwaith ieuenctid gyda'r darparwr hwn yn delio ag unrhyw fwlio, aflonyddu neu wahaniaethu yn dda

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

Pam rydych chi'n teimlo fel hyn?

5. Maent yn darparu amrywiaeth o brofiadau dysgu diddorol, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau addysgol

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

6. Mae pobl ifanc yn cael unrhyw gymorth ychwanegol y mae ei angen arnynt gan y darparwr hwn

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

7. Mae'r darparwr hwn yn rhoi gwybod i fy sefydliad am ei weithgareddau

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

8. Mae'r darparwr hwn yn ymgynghori â fy sefydliad yn rheolaidd ac yn ystyrlon

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

9. Mae'r darparwr hwn yn ystyried adborth gan fy sefydliad ac, os oes angen, yn ymateb iddo

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

10. Os ydw i'n rhannu problemau neu faterion gyda'r darparwr hwn, mae'n ymateb iddynt ac yn delio â nhw yn briodol

- [ ] Cytuno
- [ ] Anghytuno

11. Mae'r darparwr hwn yn rhannu gwybodaeth bwysig gyda fy sefydliad yn amserol ac yn glir, pan fydd hynny'n briodol

- [ ] Cytuno

☐ Anghytuno

Defnyddiwch y lle gwag isod os hoffech ddweud rhagor wrthym:

12. Byddwn i'n argymell y darparwr hwn i bobl ifanc ac i grwpiau partner eraill

☐ Cytuno

☐ Anghytuno

13. Os hoffech chi esbonio unrhyw rai o'ch ymatebion neu ychwanegu unrhyw sylwadau pellach, defnyddiwch y lle gwag hwn: